

**From:** Cefin Campbell  
**Sent:** 06 March 2017 15:43  
**To:** Penri, Awen (EPS - WLD)  
**Subject:** Cynllun Colegau Cymru

Annwyl Awen,

Shwd mae? Mae cwmni *Sbectrwm* wedi derbyn comisiwn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnal adolygiad llawn o *Gynllun Colegau Cymru*. Fel y gwyddost, fframwaith ar gyfer addysgu'r Gymraeg fel ail iaith i hyfforddeion sy'n dilyn cyrsiau hyfforddiant athrawon cynradd (BA/BAdd a TAR) sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig [SAC] yw *Cynllun Colegau Cymru*.

Er i'r cynllun fod yn weithredol ers nifer o flynyddoedd, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol o'r farn fod angen addasu ac ail-gyflwyno'r cynllun er mwyn sicrhau y gwelir cynnydd sylweddol yn nifer yr athrawon a all ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg dros y blynyddoedd nesaf, a thrwy hynny ymateb i her Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Teimlai'r Coleg fod angen diwygio'r cynllun er mwyn galluogi myfyrwyr i gyrraedd lefelau digonol o hyfedredd ieithyddol fel bod modd iddynt ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i wahanol lefelau, a bod angen iddynt sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd priodol i ymarfer a datblygu eu hyder yn eu gallu ieithyddol.

Pwrpas yr adolygiad felly yw pwyso a mesur cryfderau/diffygion y cynllun presennol ac ystyried pa fath o gynllun a strwythur hyfforddi a chefnogi sydd ei angen ar gyfer y dyfodol er mwyn datblygu sgiliau iaith darpar athrawon sydd â lefelau is, neu ddim sgiliau yn y Gymraeg, i'w galluogi i ddefnyddio'r iaith ar lawr y dosbarth.

Hoffwn felly, fel rhan o'r ymgynghoriad, gynnal cyfweiliad gyda ti a swyddogion perthnasol eraill o Lywodraeth Cymru i drafod rhai o'r materion uchod.

Yn anffodus, mae rhaid i fersiwn drafft o'r adroddiad gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth felly byddwn yn gwerthfawrogi'r cyfle am sgwrs yn ystod yr wythnosau nesaf pe bai hynny'n bosibl. Afraid dweud na fydd cyfeiriad at unrhyw sylwadau a wnaed gennych fel swyddogion yn ymddangos yn yr adroddiad.

Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthyf gan ddiolch i ti ymlaen llaw am bob cydweithrediad.

Yn gywir iawn,

*Cefin.*

**Cefin Campbell**  
Rheolwr Gyfarwyddwr/*Managing Director*  
Sbectrwm